Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Glanyfferi

**Glanyfferi**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA17 5TB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Glanyfferi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir Glanyfferi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Cristnogol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 27 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 24 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 3 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 3.3% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y Cynradd yw 20.6%) | 26% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 16% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0 |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 29/01/2013 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a chroesawgar i’r disgyblion, sy'n eu hannog i fod yn aelodau gwerthfawr o ‘deulu’ yr ysgol. Mae’r ddau ddosbarth, y mannau dysgu ehangach a'r ardaloedd allanol yn lleoedd ysgogol a lliwgar lle gall y disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ym mhob agwedd o’u dysgu. Maent yn gwrtais, yn cydweithio’n dda mewn gwersi ac yn cyd-chwarae’n fodlon ymhlith eu cyfoedion ar yr iard. Maent yn hapus i siarad ag oedolion ac yn gwerthfawrogi a pharchu cyfraniadau pobl eraill.

Mae’r cwricwlwm yn cael ei gynllunio’n fwriadus i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o’u hardal leol. Mae’n hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn effeithiol ac yn defnyddio ymwelwyr ac ymweliadau yn briodol i gyfoethogi ac i ymestyn profiadau’r disgyblion.

Mae’r ysgol wedi profi ansefydlogrwydd dwys mewn arweinyddiaeth dros nifer o flynyddoedd. Er hyn, mae’r pennaeth dros dro cyfredol wedi mynd ati i drawsnewid y ddarpariaeth yn llwyddiannus, gan roi buddiannau a lles y disgyblion yn ganolog.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd yn yr arweinyddiaeth

A2 Sicrhau bod gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain a'r disgyblion er mwyn cynnal a chodi safonau

A3 Sicrhau bod digon o gyfleoedd amrywiol i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella safon cyflwyniad gwaith ysgrifenedig disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yr ysgol â medrau sy’n unol â’r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd priodol ym mhob agwedd o’u dysgu.

Mae medrau gwrando’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Maent yn gwrando’n astud ar gyflwyniadau a barn eraill ac yn ymateb yn briodol iddynt.

Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn awyddus i drafod ac maent yn esbonio’u gwaith yn hyderus gan ddefnyddio geirfa gynyddol gymhleth yn y ddwy iaith. Mae gan y rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn eirfa eang ac maent yn ei defnyddio’n briodol mewn amrywiol gyd-destunau.

Ar draws yr ysgol, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae’r rhai ieuengaf yn dod i adnabod llythrennau a geiriau syml yn gyflym. Maent yn dod o hyd i lythrennau yn y twba chwarae i adeiladu geiriau unsill fel ‘mat, cap a het’ yn hyderus. Mae’r mwyafrif yn dilyn rhediad stori trwy ddefnyddio cyfuniad o eiriau Cymraeg a symbolau. Wrth dyfu’n hŷn, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn lled ystyriol yn y ddwy iaith ac yn esbonio cynnwys testun yn glir. Mae medrau disgyblion i adeiladu geiriau anghyfarwydd ac estynedig yn datblygu’n dda.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol wrth iddynt symud o un cyfnod dysgu i’r llall. Mae’r disgyblion ieuengaf yn gwneud marciau syml i gyfleu ystyr cyn dechrau adeiladu geiriau byr. Mae disgyblion sydd ychydig yn hŷn yn ysgrifennu brawddegau llawn i ddisgrifio Geraint Thomas, ynghyd â gwahanol ffeithiau amdano. Maent yn cofnodi rhagfynegiadau syml wrth wneud arbrawf gwyddonol, neu’n ysgrifennu llythyr at ffrind. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn deall bod angen defnyddio gwahanol arddulliau at wahanol bwrpasau ac yn gwneud hynny’n hyderus. Er enghraifft, maent yn cofnodi manteision ac anfanteision wrth lunio dadl yn seiliedig ar foddi’r ardal o gwmpas yr afon Tywi. Fodd bynnag, mae safon cyflwyniad gwaith y rhan fwyaf y disgyblion ar frig yr ysgol yn isel. Maent yn cyflawni gwaith ar daflenni parod yn rhy aml, sy’n llesteirio eu gallu i gyflwyno gwaith yn gynyddol daclus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg. Maent yn adeiladu’n drefnus ar eu dealltwriaeth gadarn, gynnar o werth lle a bondiau rhif, ac yn cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r pedair rheol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael gadarn o fedrau mesur ac maent yn defnyddio graddfeydd yn llwyddiannus i ddatrys problemau perthnasol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn mesur a llunio amlinelliad o warchodfa 'Anderson' i gyd-fynd â themâu’r Ail Ryfel Byd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau mathemategol yn dda wrth ddatrys problemau rhifedd gan ddefnyddio mwy nag un cam, lle bo angen. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion hŷn yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r rhai ieuengaf yn tynnu lluniau a llwytho’u gwaith i ffeiliau digidol priodol yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod eang o feddalwedd yn bwrpasol ac yn fedrus. Er enghraifft, maent yn defnyddio sgrin werdd yn effeithiol wrth gynhyrchu clipiau fideo tra’n chwarae rôl cymeriadau hanesyddol Cymreig.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio cyfryngau amrywiol i fynegi eu hunain yn llwyddiannus mewn cyd-destunau ysgogol. Er enghraifft, maent yn efelychu gwaith artist sy’n dylunio lluniau yn seiliedig ar yr arfordir gydag adnoddau naturiol ar y traeth lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus bod oedolion yn gwrando ar eu barn ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae pob disgybl yn aelodau o 'Senedd Ysgol Glanyfferi' ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at greu’r ethos teuluol yn llwyddiannus. Mae gwaith effeithiol 'Llysgenhadon Ysgol Glanyfferi' yn datblygu synnwyr cadarn ymhlith disgyblion am bwysigrwydd gofalu am ei gilydd. Er enghraifft, maent yn cynnig cymorth i unrhyw rai sy'n teimlo'n drist ar yr iard ac yn trefnu gweithgareddau hwyliog i'w cyfoedion.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n iach a heini. Maent yn mwynhau gwersi addysg gorfforol ac yn gwerthfawrogi profiadau dysgu yn yr awyr agored sy’n llesol i’w hiechyd emosiynol a’u ffitrwydd corfforol. Maent yn adnabod y risgiau sydd ynghlwm â defnyddio'r rhyngrwyd, ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd i gadw eu hunain yn ddiogel ac at bwy i droi am gymorth pan fyddant ar lein.

Mae mwyafrif y disgyblion yn arddangos uchelgais a brwdfrydedd tuag at eu dysgu trwy rannu syniadau am dasgau a thestunau maent yn awyddus i wybod mwy amdanynt. Er hyn, mae parodrwydd a gallu lleiafrif y disgyblion i fentro ac i herio eu hunain a'i gilydd wrth ymgymryd â'u tasgau yn dechrau datblygu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu brwdfrydedd i ddysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni gwaith da. Maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn gydwybodol, ond mae llawer o'r disgyblion hŷn yn tueddu i chwilio am gymorth ychwanegol yn rhy fuan wrth wynebu anawsterau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cod marcio i wirio eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymateb yn ddigon bwriadus a chyson i adborth oedolion er mwyn gwella a chodi safon eu gwaith ysgrifenedig.

Mae bron pob disgybl yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill mewn sesiynau dysgu. Er enghraifft, maent yn gwrando'n astud ar fewnbwn eu cyfoedion ac yn ymateb yn barchus i wahanol safbwyntiau mewn sesiynau amser cylch wythnosol. Mae ymddygiad disgyblion o gwmpas yr ysgol yn gyson dda ac maent yn ymateb yn barchus i staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n dda mewn gwersi ac yn cyd-chwarae’n fodlon ymhlith eu cyfoedion ar yr iard.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar

ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae’r staff yn dechrau cynllunio’n fwriadus i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cyflwyno eu gweledigaeth i'w cynlluniau yn briodol. Mae'r nodau: *'Glanyfferi - Galluog, Gwybodus, Gofalgar, a Gweithgar'* yn llywio'r cynllunio ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygu profiadau'r disgyblion a chyflawni egwyddorion y cwricwlwm. Mae'r cynlluniau tymhorol yn fanwl, ac yn aml wedi’u seilio ar elfennau pwysig sy’n deillio o'r gymuned leol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol ar y thema 'Troi a Llifo' gan wneud defnydd priodol o'r afon a'r traeth lleol i sbarduno thema'r tymor. Darparwyd gweithgareddau am hanes pentref lleol Llangyndeyrn yn y gorffennol, sy'n ddigwyddiad perthnasol a phwysig i'r disgyblion a’r gymuned ehangach. Mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion am eu hanes a'u hardal leol. Serch hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn adeiladol dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr i’r ysgol ac yn trefnu ymweliadau addysgol yn effeithiol i gyfoethogi ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion o agweddau pwysig o'u dysgu. Er enghraifft, maent yn cynnal cyfarfodydd digidol i holi trigolion o'r gymuned leol am eu profiadau yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o dechnoleg wrth ddysgu am brofiadau pobl eraill ac yn cyfoethogi eu profiadau a’u mwynhad at ddysgu

Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan ddisgyblion gyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gyson mewn sesiynau dosbarth. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o weithgareddau ymarferol sy’n cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhif ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddau ddosbarth, y mannau dysgu ehangach a'r ardaloedd allanol yn lleoedd ysgogol a lliwgar lle gall y disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Gan mai nifer fechan o ddisgyblion sydd ym mhob dosbarth, mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn eu hadnabod yn dda, ac maent yn darparu gweithgareddau priodol iddynt sy’n mynd i’r afael â’u hanghenion dysgu a'u lles. Mae athrawes a chynorthwywyr y disgyblion ieuengaf, er enghraifft, yn annog disgyblion i gwblhau heriau yn yr ardal allanol a siarad am yr hyn maent yn ei wneud yn naturiol a pharhaus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau llafar a’u chwilfrydedd at ddysgu.

Mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol ac mae llawer yn eu trin yn gwrtais a chyda pharch. Mae gan lawer o’r staff ddisgwyliadau uchel o’u hunain ac o’r disgyblion, yn arbennig yn nosbarth y disgyblion ieuengaf. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn rhannu nodau dysgu gyda disgyblion yn briodol ac yn esbonio’n glir beth sydd angen iddynt ei wneud. Lle mae'r addysgu a rei orau, mae staff yn frwdfrydig, yn darparu gweithgareddau diddorol a heriol i'r disgyblion ac yn eu canmol a'u hannog i fwynhau dysgu. At ei gilydd, mae cyflwyniad gwaith disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mae safon a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig llawer o’r disgyblion hŷn yn anniben.

Mae adborth llafar athrawon, ar y cyfan, yn helpu'r disgyblion i wybod pa mor dda maent yn cyflawni ac yn darparu cefnogaeth iddynt wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Defnyddir cod marcio sy'n cefnogi disgyblion yn addas i ymateb i gamgymeriadau. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd priodol i ddisgyblion hŷn  asesu dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar eu dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith.

Mae llawer o'r athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio'r wybodaeth o ddeilliannau eu hasesiadau yn briodol i gynllunio'r camau priodol nesaf yn nysgu'r disgyblion. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar godi safonau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a chroesawgar i'r disgyblion, sy'n eu hannog i fod yn aelodau gwerthfawr o 'deulu' yr ysgol. Mae staff yn hyrwyddo diwylliant, iaith a threftadaeth Cymru yn effeithiol. O ganlyniad, mae gan y disgyblion falchder yn hanes a thraddodiadau'r ardal a'u Cymreictod.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad i'r berthynas agos ac agored sy'n bodoli rhwng y staff a'r disgyblion, ynghyd â'r prosesau olrhain cynnydd manwl sydd gan yr ysgol, maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol gydag arbenigwyr ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol wrth ymateb i anghenion unigol disgyblion ADY. Er enghraifft, maent wedi hyfforddi a chefnogi cynorthwyydd i gefnogi lles emosiynol carfan o ddisgyblion yn effeithiol.

Mae'r staff yn cyflwyno ac atgyfnerthu gwerthoedd ysbrydol, moesol a chymdeithasol cadarnhaol disgyblion yn gyson mewn gwersi a sesiynau ar y cyd. Yn sgil hyn, mae ethos yr ysgol yn gynhwysol a chartrefol sydd yn chwilio am gyfleoedd perthnasol i gydweithio'n gyson â'r gymuned y mae'n rhan bwysig ohoni. Er enghraifft, mae'r staff a'r disgyblion wedi cydweithio'n llwyddiannus gyda'r cyngor cymuned lleol i blannu coed yn yr ardal. Mae'r staff yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o'u cymuned leol a'i lle yng Nghymru a'r byd ehangach yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae staff wedi darparu cyfleoedd effeithiol wrth i ddisgyblion gymharu bywydau plant yng Nghymru a Malawi gan godi arian at elusen berthnasol.

Mae 'Senedd Ysgol Glanfferi' yn grŵp prysur a gwerthfawr sy'n cynnig cyfle i bob disgybl ddylanwadu'n gadarnhaol ar yr hyn sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol. Fodd bynnag, er eu bod wedi cychwyn ar y gwaith, nid yw'r disgyblion hyd yma yn cael digon o gyfleoedd i gael dylanwad uniongyrchol ar yr hyn maent yn ei ddysgu mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwysig i ddisgyblion ddatblygu eu hunanhyder drwy gymryd rhan mewn perfformiadau yn yr ysgol a'r gymuned leol. Er enghraifft, darparodd staff gyfle i'r disgyblion gyflwyno'r cyngerdd Nadolig diwethaf i'r rhieni a'r gymuned yn yr awyr agored. Yn ogystal, dathlwyd gwaith celf disgyblion ar y cyd ag artist lleol mewn seremoni agoriadol fawreddog a gynhaliwyd yn Yr Egin, yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae’n cydweithio’n effeithiol â phartneriaid yn y sector cyhoeddus fel yr heddlu neu'r nyrs ysgol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu’r medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Mae cyfuniad o wersi ysgol a sesiynau gan arbenigwyr yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o faterion yn cynnwys bwyta ac yfed yn iach, camddefnyddio sylweddau, a phwysigrwydd diogelwch ar-lein. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i gefnogi lles emosiynol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol i annog disgyblion hŷn i rannu eu teimladau ac unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r staff.

Mae athrawon wedi dechrau cydweithio â staff dwy ysgol leol arall wrth ddarparu profiadau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol ar y cyd i’r disgyblion. Er enghraifft, trefnwyd taith i ddisgyblion y tair ysgol i Ganolfan yr Urdd, Caerdydd yn ddiweddar. Trwy’r cydweithio hwn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae’r pennaeth dros dro, y llywodraethwyr a’r staff yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant cryf o ddiogelwch a lles yng nghymuned yr ysgol. Maent yn monitro presenoldeb ac absenoldebau cyson yn effeithiol, gan weithredu'n rhagweithiol, lle bo angen. O ganlyniad, mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae’r ysgol wedi profi ansefydlogrwydd dwys mewn arweinyddiaeth dros nifer o flynyddoedd. Er hyn, ers ei benodiad, ychydig o dan flwyddyn ôl, mae’r pennaeth dros dro cyfredol wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer ysgol yn seiliedig ar ‘feithrin disgyblion gonest a gofalgar, sy’n ffynnu ym mhopeth a wnânt’. Mae’n cyfleu’r weledigaeth honno’n glir ymhlith y staff, rhieni, llywodraethwyr a’r disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol i gywain tystiolaeth sy’n galluogi arweinwyr i adnabod beth sy’n gweithio’n dda a’r meysydd sydd angen eu datblygu. Trwy weithredu’r rhain yn gyson, mae’r pennaeth dros dro wedi adnabod nifer o feysydd pwysig sydd angen eu gwella yn y ddarpariaeth a’r addysgu yn gyflym. Yn sgil hyn, mae wedi cyflwyno gwelliannau sydd eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn meysydd penodol fel llythrennedd a rhifedd.

Mae’r pennaeth dros dro yn cynnwys staff, rhieni a disgyblion yn y broses hunanwerthuso. Mae wedi anfon holiaduron iddynt i ganfod eu barn ac wedi eu gwahodd i drafod gydag ef unrhyw fater sy’n bwysig iddynt. Mae hyn, ynghyd â gweithgareddau fel craffu ar lyfrau, ymweld â dosbarthiadau a sgwrsio â’r staff a'r disgyblion wedi ei helpu i lunio blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer y cynllun datblygu. Mae'r cynllun hwn yn drefnus ac yn nodi camau gweithredu addas, yr unigolion sy'n gyfrifol amdanynt, llinell amser ar gyfer gweithredu a monitro cynnydd, a'r gost sydd ynghlwm â nhw. Mae'r ysgol yn cynllunio ei gweithgareddau gwella sy’n ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn, yn paratoi i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, yn ymateb i ofynion y ddeddf ADY newydd, ac yn gwella datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn briodol.

Gweithreda'r llywodraethwyr yn briodol fel ffrindiau beirniadol. Maent yn deall a chyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn gydwybodol. Maent yn gwybod am flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae gan y corff llywodraethol drefniadau addas i gefnogi disgyblion i wneud penderfyniadau cywir wrth fyw'n iach.

Mae gan y pennaeth dros dro a'r staff berthynas gynhyrchiol â rhieni. Mae'r gymdeithas rieni yn weithgar, ac wedi ariannu'r gwaith o wella'r ardal ddysgu allanol yn ddiweddar. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni mewn amrywiol ffyrdd i'w hysbysu am faterion pwysig fel y newidiadau i'r cwricwlwm, ac i gynnig cymorth i'r rheini sydd â'u plant ag ADY. Mae gan yr ysgol bartneriaeth gadarn â'r Ysgol Feithrin sydd ar dir yr ysgol sy'n cefnogi plant i drosglwyddo'n esmwyth a hapus i'r ysgol.

Mae'r pennaeth dros dro yn darparu gweithgareddau dysgu proffesiynol i'r holl staff sy'n cysylltu'n briodol â chanfyddiadau'r prosesau hunanwerthuso, y blaenoriaethau gwella ac anghenion proffesiynol yr unigolion. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth staff o ddulliau addysgu effeithiol ac yn eu cefnogi i'w defnyddio er mwyn gwella eu hymarfer. Mae'r pennaeth dros dro yn nodi'r arfer orau o fewn y tair ysgol sydd o dan ei ofal ac yn ei rhannu gyda'r holl aelodau staff er mwyn iddynt fanteisio arnynt. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau staff i wella'r ddarpariaeth, sydd yn ei dro yn cefnogi cynnydd disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2022